Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## Cyflwyniad

Mae'r nodiadau yma i'ch helpu i lenwi'r ffurflen feddygol DIAB1W:

- defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen
- ysgrifennwch yn y blychau gwyn yn unig, a
- defnyddiwch briflythrennau yn unig.

Efallai na fydd raid i chi lenwi'r holl gwestiynau yn Rhannau A, B a C. Bydd y canllaw hwn yn esbonio beth fydd angen i chi ei lenwi. Mae Rhannau A, B ac C yn cyfeirio at ffurflenni safonol a ddefnyddir yn holl ymchwiliadau meddygol y DVLA.

Yn Rhan D, rhaid ateb cwestiynau 1, 2 a 3. Os na fyddwch yn gwneud hynny bydd raid i ni ddychwelyd y ffurflen feddygol atoch chi a bydd hyn yn peri oedi i'ch achos. Os nad ydych yn gwybod yr atebion dylech drafod y ffurflen gyda'ch Meddyg Teulu neu nyrs arbenigol.

Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## Rhan A: Amdanoch chi

- Ysgrifennwch eich teitl, cyfenw, enw/enwau cyntaf a'ch dyddiad geni mewn priflythrennau. Cynhwyswch eich cyfeiriad llawn a defnyddiwch un blwch ar gyfer pob llythyren/rhif yn eich cod post.
- Rydym yn defnyddio eich rhif gyrrwr i gael mynediad at eich cofnod trwydded yrru. Hwn yw'r rhif un digid ar bymtheg a ddangosir ar eich trwydded yrru, ac mae'n dechrau gyda 5 llythyren gyntaf eich cyfenw (neu eich cyfenw a rhifau os oes llai na phum llythyren yn eich cyfenw). (Os nad yw eich trwydded yrru gennych chi oherwydd eich bod eisoes wedi ei dychwelyd neu nad yw wedi ei rhoi eto nid oes raid i chi lenwi'r cwestiwn hwn.)
- Rhowch eich rhif ffôn cartref a symudol (os yn berthnasol) a'ch cyfeiriad e-bost os oes gennych chi un. Bydd y wybodaeth hon yn ein helpu i gysylltu â chi yn gyflym os bydd arnom angen gwneud hynny.

Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd

- Rhowch enw eich meddyg teulu, cyfeiriad y feddygfa a'r rhif ffôn. Os byddwch yn gweld ymgynghorydd hefyd oherwydd gofal diabetes, rhaid i chi roi ei enw, enw'r ysbyty, y cyfeiriad a'r rhif ffôn.
- Os byddwch yn gweld mwy nag un ymgynghorydd oherwydd eich gofal diabetes, rhowch eu henwau a'u cyfeiriadau ar ddalen ar wahân.
- Dywedwch wrthym ar pa ddyddiad y gwnaethoch weld eich meddyg teulu neu ymgynghorydd ddiwethaf am eich diabetes. Os nad ydych yn gweld eich meddyg teulu am eich diabetes nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol felly atebwch 'Amherthnasol'.
- Cewch roi cyfeiriad e-bost eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd os yw gennych, ond nid yw'n hanfodol ar gyfer ein hymholiadau.
- Rhowch eich rhif ysbyty os ydych yn ei wybod, bydd o gymorth os bydd arnom angen ysgrifennu at eich ymgynghorydd.

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu

- Rhowch enwau unrhyw glinigau eraill yr ydych yn mynychu am resymau heblaw diabetes.
- Os ydych wedi rhestru clinig arall, esboniwch pam eich bod yn mynd yno a phryd y gwnaethant eich gweld ddiwethaf (yn fras). Bydd hyn yn helpu'r DVLA i ymdrin â'ch achos yn y modd cywir.
- Os ydym am i chi gael archwiliad meddygol neu asesiad ymarferol, byddwn yn talu am y rhain, ond ddim am eich costau teithio na chostau eraill.

Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd




## Adran 1: Ynglŷn â'ch diabetes

Mae Adran 1 ynglŷn â'ch diabetes a'r risg o siwgr isel yn y gwaed difrifol (hypoglycemia).

### C1a

Dywedwch wrthym sut y mae eich diabetes yn cael ei drin trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol.

- Os yw eich diabetes yn cael ei reoli trwy dabledi yn unig a'ch bod wedi derbyn ffurflen feddygol DIAB1W gan y DVLA rhaid i chi lenwi'r ffurflen a'i dychwelyd.
- Os yw eich diabetes yn cael ei reoli trwy ddiet yn unig a'ch bod wedi derbyn ffurflen feddygol DIAB1W gan y DVLA nid oes raid i chi lenwi adran 1.
- Ond, os ydych wedi cael triniaeth laser yn y ddwy lygad, (neu yn y llygad sydd ar ôl os mai dim ond un llygad sydd gennych), ar gyfer unrhyw afiechyd llygad oherwydd diabetes neu gyflwr arall ar y llygad (peidiwch â chynnwys llawdriniaeth i gywiro bod â golwg byr) bydd angen i chi lenwi adran 3.
- Os nad ydych wedi cael triniaeth laser rhaid i chi ddychwelyd ffurflen feddygol DIAB1W yr un fath (defnyddiwch yr amlen a ddarparwyd) gyda llythyr yn esbonio bod eich diabetes yn cael ei reoli trwy eich diet yn unig. Byddwn yn gallu diweddaru eich cofnod.

### C1b

Llenwch y blwch dyddiad gyda dyddiad bras pan wnaethoch ddechrau eich triniaeth inswlin.

Blwch Datganiad:

- Os ydych yn cael triniaeth inswlin, mae'n **rhaid** i chi lofnodi a dyddio'r datganiad. Bydd hyn yn cadarnhau eich bod yn deall bod rhaid i chi brofi lefel glwcos/siwgr eich gwaed pan fyddwch yn gyrru.
- Mae panel meddygol y DVLA wedi diffinio hyn fel yr angen i brofi dim mwy na 2 awr cyn cychwyn y daith cyntaf a phob 2 awr wrth yrru. Efallai y bydd angen profion yn amlach os, am unrhyw reswn mae mwy o risg o hypoglycemia er enghraifft ar ôl gweithgaredd corfforol neu newid trefn prydiau.
- Os byddwch yn gwneud nifer o deithiau bychain nid oes raid i chi brofi cyn pob taith cyn belled â'ch bod yn profi bob 2 awr tra byddwch yn gyrru.
- Sylwer bod **rhaid** i chi lofnodi'r datganiad neu ni allwn symud eich cais ymlaen.

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## C2a

Ticiwch yr unigolyn yr ydych yn ei weld yn gyson ar gyfer gofal i'ch diabetes (y gofal sydd arnoch ei angen i reoli'r glwcos/siwgr yn y gwaed a'ch meddyginiaeth diabetes). Cewch roi tic mewn mwy nag un blwch.

## C2b

Rhowch dic wrth **ydw** neu **na**.

Ticiwch **ydw** os ydych wedi cael eich gweld o fewn y 12 mis diwethaf gan unrhyw un o'r bobl yng nghwestiwn 2a (peidiwch â chynnwys mynychu clinigau llygad neu draed/trin traed, am eich archwiliad blynyddol er enghraifft). Rhowch ddyddiad eich apwyntiad clinig diabetig diwethaf hefyd.

## C3a

Rhowch dic wrth **ydw** neu **na**.

- Siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) yw'r term meddygol am lefel glwcos/siwgr isel yn y gwaed: hynny yw lefel glwcos yn y gwaed yn is na 4 mmol/l, cyfeirir ato hefyd fel 'hypo'. Dylai symptomau siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) fod yn bresennol ar lefelau glwcos yn y gwaed yn is na 3 mmol/l.
- Mae symptomau cynnar siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) yn cynnwys: chwysu, crynu neu ansicr ar eich traed, teimlo'n llwglyd, pwls cyflym neu galon guro, pryder, pinnau bach yn eich gwefusau.

## C3b

Rhowch dic wrth **do** neu **na**.

Os byddwch yn rhoi tic **na** i'r cwestiwn hwn, mae'n golygu **nad** ydych wedi cael pwl o hypoglycemia ac nad oes arnoch angen ateb cwestiynau 3c, 3d, 3e a 3f. Ewch yn syth i **Adran 2: rheolaeth arbennig** ar DIAB1W.

Os byddwch yn rhoi tic **do** i'r cwestiwn hwn, mae'n golygu eich bod wedi cael pwl o siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) a bod rhaid i chi ateb cwestiynau 3c, 3d, 3e a 3f.

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## C3c

Rhowch dic wrth **do** neu **na**.

Mae arnom angen cael gwybod a ydych wedi cael mwy nag un pwl o siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) **difrifol** yn y 12 mis diwethaf.

- Dim ond achlysuron pan oeddech **angen i rywun arall eich helpu** y dylech eu cyfrif.
- Nid oes raid i chi gyfrif pyliau pan gawsoch help ond y gallech fod wedi eich trin eich hunan. Byddai bod angen cymorth yn cynnwys:

– mynd i Adran Damweiniau ac Argyfwng
– triniaeth gan barafeddygon, neu
– gymorth gan bartner/ffrind sy'n gorfod rhoi glwcagon neu glwcos oherwydd na allwch wneud hynny eich hun.

## C3ch

Os byddwch yn ticio **do** yn cwestiwn 3c rhaid i chi lenwi'r blychau dyddiad. Bydd hyn yn rhoi gwell syniad i ni pryd y gallwn dderbyn cais.

## C3d

Rhowch dic **ydw** neu **na**.

- Siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) yw'r term meddygol am lefel glwcos/siwgr isel yn y gwaed: hynny yw lefel glwcos yn y gwaed yn is na 4 mmol/l, cyfeirir ato hefyd fel 'hypo'. Dylai symptomau siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) fod yn bresennol ar lefelau glwcos yn y gwaed yn is na 3 mmol/l.
- Mae symptomau cynnar siwgr isel yn y gwaed (hypoglycemia) yn cynnwys: chwysu, crynu neu ansicr ar eich traed, teimlo'n llwglyd, pwls cyflym neu galon guro, pryder, pinnau bach yn eich gwefusau.
- Os na fyddwch yn trin y rhain, gallwch gael symptomau mwy difrifol fel anhawster i siarad, anhawster i ganolbwyntio, ymddygiad anhrefnus neu afresymol.
  Os na chaiff hyn ei drin gallwch fynd yn anymwybodol.

## C3dd

Os byddwch yn rhoi tic **ydw** i gwestiwn 3e, rhaid i chi ateb **ydw** neu **na** i'r cwestiwn hwn.

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


**Adran 2: Dulliau rheoli arbennig**

## C1

Rhowch dic **oes** neu **na**.

- Os byddwch yn ticio **na** ar gyfer y cwestiwn hwn nid oes angen i chi ateb cwestiynau 2 a 3, ewch yn syth i **Adran 3: golwg**.
- Dim ond os oes rhesymau meddygol pam eich bod **angen** gyriant awtomatig neu ddulliau rheoli arbennig i reoli eich cerbyd yn ddiogel bob amser y dylech roi tic ar gyfer **oes**.

Cewch gyngor ar ddulliau rheoli arbennig oddi ar wefan **gov.uk/browse/driving/disability-health-condition** neu'r sefydliad annibynnol **mobility-centres.org.uk** ar 0800 559 3636.

- Os oes gennych drwydded yrru dros dro neu eich bod yn gwneud cais am drwydded dros dro, dim ond rhoi tic ar gyfer **oes** neu **na** ar gyfer cwestiwn 1 fydd raid i chi, nid oes raid i chi ateb cwestiynau 2 a 3. Os bydd arnoch angen gyriant awtomatig neu ddulliau rheoli arbennig, bydd y codau yn cael eu diweddaru pan fyddwch wedi pasio'ch prawf gyrru.

## C2

Rhowch dic **do** neu **na**.

- Dim ond os nad ydych wedi dweud wrthym o'r blaen bod arnoch angen dulliau rheoli arbennig neu yriant awtomatig am resymau meddygol, i reoli eich cerbyd yn ddiogel y dylech roi tic ar gyfer **na** yn y cwestiwn hwn.
- Dim ond os ydych wedi dweud wrthym o'r blaen bod arnoch angen dulliau rheoli arbennig neu yriant awtomatig am resymau meddygol y dylech roi tic ar gyfer **do** yn y cwestiwn hwn. Os byddwch yn ateb **do** i gwestiwn 2 rhaid i chi ateb **do** neu **na** i gwestiwn 3.

## C3

Rhowch dic **do** neu **na**.

- Dim ond os ydych wedi dweud wrthym o'r blaen bod arnoch angen dulliau rheoli arbennig neu gerbyd awtomatig y dylech roi tic ar gyfer **na** yn y cwestiwn hwn ac **nad** ydych wedi gosod unrhyw ddulliau rheoli ychwanegol ar eich cerbyd am resymau meddygol ers eich trwydded ddiwethaf.
- Dim ond os ydych wedi dweud wrthym o'r blaen bod arnoch angen dulliau rheoli arbennig neu gerbyd awtomatig y dylech roi tic ar gyfer **do** yn y cwestiwn hwn a'ch **bod** wedi gosod dulliau rheoli ychwanegol ar eich cerbyd ers eich trwydded ddiwethaf.

- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd

**Adran 3: Eich golwg**

## C1a

Rhowch dic **gallaf** neu **na**.

- Mae'n rhaid i chi fedru darllen plât rhif car (gyda sbectol neu lensys cywiro os bydd angen) a wnaed ar ôl 1 Medi 2001 o 20 metr i ffwrdd.


Rhoddir enghraifft o ffurf y plât rhif isod:




## C1b

Rhowch dic **do** neu **na**.

- Mae'n rhaid i chi hefyd gyrraedd yr isafswm safon gweld ar gyfer gyrru trwy gael craffter gweledol o ddegolyn 0.5 (6/12) o leiaf, wedi'i fesur ar raddfa Snellen (â sbectol neu lensys cywiro os oes eu hangen) gan ddefnyddio'r ddwy lygad gyda'i gilydd (neu, os mae dim ond ag un llygad yr ydych yn gweld, yn y llygad hwnnw).




- Craffter gweledol yw'r term a ddefnyddir gan optegwyr a meddygon i fesur eich golwg. **Dim ond** os bydd optegydd neu feddyg wedi dweud wrthych nad yw eich golwg ar hyn o bryd yn cyrraedd y safon ofynnol ar gyfer gyrru y dylech ateb **do** i'r cwestiwn hwn. **Os oes gennych unrhyw amheuon, dylech eu trafod gyda'ch optegydd neu feddyg.**

Mae gan yr heddlu pŵer i'ch gorfodi i gymryd prawf plât rif. Os ni allwch ddarllen y plât rhif, gellir diddymu eich trwydded ac fe allant eich erlyn.

## C2

Rhowch dic **oes** neu **na**.

- Os byddwch yn ticio **oes**, byddwn yn ychwanegu cod 01 at eich trwydded i gadarnhau bod arnoch angen sbectolau neu lensys cywiro i yrru.
- Rhaid i chi wisgo eich sbectolau neu lensys cywiro i yrru **bob amser**. Mae'n drosedd gyrru hebddynt os nad ydych yn medru cyrraedd y safon.

Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## C3

Rhowch dic **do** neu **na**.

Os byddwch yn ticio **do** rhaid i chi beidio â bod ag unrhyw broblem gyda'ch maes gweld yn eich llygad arall a medru cyrraedd y safon golwg isaf ar gyfer gyrru (gweler C1a/1b am ofynion y safon).

## C4

Rhowch dic **do** neu **na**.

**Peidiwch â** thicio **do** os mai dim ond i drin golwg byr yr ydych wedi cael llawfeddygaeth/triniaeth laser.

Os byddwch yn ticio **do** i C4 Rhowch ddyddiad eich triniaeth laser ddiwethaf.

**Os na fyddwch yn gwneud hynny ni allwn symud eich achos ymlaen. Byddwn yn dychwelyd y ffurflen i chi ei llenwi.**

Os nad ydych yn sicr, cysylltwch â'ch meddyg neu optegydd.

## C5

Rhowch dic **oes** neu **na**.

Dim ond os oes gennych gataractau neu unrhyw ddystroffi ar y cornbilen yn y ddau lygad ar hyn o bryd (neu'r llygad sydd ar ôl os mai dim ond un llygad sydd gennych) y dylech dicio **oes** ac mae'n rhaid i chi fedru cyrraedd y safon golwg isaf ar gyfer gyrru (gweler C1a/1b am ofynion y safon).

Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Canllaw i lenwi eich ffurflen feddygol DIAB1W


- Cyflwyniad
- Rhan A: Amdanoch chi
- Rhan B: Am eich meddyg teulu a'ch ymgynghorydd
- Rhan C: Am glinigau eraill yr ydych yn mynychu
- Rhan D: Ynglŷn â'ch diabetes
  - Adran 1
  - Adran 2
  - Adran 3
- Caniatâd


## Ffurflen ganiatâd

**Mae'r term meddyg ar y ffurflen hon yn golygu eich meddyg teulu neu ymgynghorydd.**

Rhaid i chi lofnodi a dyddio'r ffurflen ganiatâd a'r datganiad a rhaid i chi beidio â'u newid mewn unrhyw ffordd. Mae'n cadarnhau bod y manylion yr ydych wedi eu rhoi ar y ffurflen/ffurflenni meddygol yn gywir, hyd eithaf eich gwybodaeth.

Os bydd arnom angen ysgrifennu at eich meddyg, bydd eich caniatâd yn gadael i'ch meddyg roi gwybodaeth i ni am eich cyflwr meddygol a gyrru.

Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn a ydych yn cytuno i'r DVLA anfon ffacs neu e-bost at eich meddyg mewn amgylchiadau addas. Dim ond os bydd yn credu y bydd er budd i chi y gwnaiff ein cynghorwr meddygol wneud hyn.

**Dewch o hyd i wybodaeth am wasanaethau ar-lein DVLA**
**Ewch i:** www.gov.uk/browse/driving